

Enw'r Ymgeisydd	Rhif y Ganolfan	Rhif yr Ymgeisydd

CYD-BWYLLGOR ADDYSG CYMRU  
TYSTYSGRIF LEFEL MYNEDIAD



WELSH JOINT EDUCATION COMMITTEE  
ENTRY LEVEL CERTIFICATE

715/51

### Tystysgrif Lefel Mynediad

#### ASTUDIAETHAU TIR

P.M. DYDD GWENER, 24 Mawrth 2006

(1 Awr)

I'r Arholwr yn unig

Cyfanswm y  
Marciau

### CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

Ysgrifennwch eich enw, rhif y ganolfan a'ch rhif ymgeisydd yn y blychau ar ben y dudalen hon.

Atebwch **bob** cwestiwn.

Ysgrifennwch eich atebion yn y lleoedd gwag priodol yn y llyfrynn hwn.

Os nad ydych chi'n gallu darllen cwestiwn, codwch eich llaw a bydd yr athro/athrawes yn ei ddarllen i chi.

### GWYBODAETH I YMGEISWYR

Rhoddir nifer y marciau mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.

Ni roddir tystysgrif i ymgeisydd a geir yn ymddwyn yn annheg yn ystod yr arholiad.


**Atebwch bob cwestiwn.**

- Darllenwch y paragraffau canlynol yn ofalus ac yna atebwch y cwestiynau.

*Fotosynthesis* yw enw'r adwaith rhwng planhigion, golau, dŵr a charbon deuocsid. Dyma'r modd y mae planhigion yn gwneud bwyd. Mae'r planhigyn yn defnyddio *golau* i uno *dŵr* a *charbon deuocsid* â'i gilydd i wneud siwgr o'r enw *glwcos*. Yna caiff hwn ei droi yn *startsh*. Yn ogystal â *glwcos*, mae nwy o'r enw *ocsigen* yn cael ei wneud. Mae anifeiliaid a phlanhigion yn defnyddio *ocsigen* ar gyfer resbiradaeth.

Mae ffotosynthesis yn digwydd yn *neilen* y planhigyn. Mae celloedd y ddeilen yn cynnwys disgiau bach gwyrdd o'r enw *cloroplastau*. Mae'r rhain yn cynnwys y sylwedd o'r enw *chloroffyl*. Y cloroplastau sy'n dal egni'r golau, sy'n angenrheidiol ar gyfer ffotosynthesis.

Felly, er mwyn i ffotosynthesis ddigwydd mae angen dŵr, carbon deuocsid, golau a chloroffyl ar y planhigyn. Mae *glwcos* ac *ocsigen* yn cael eu gwneud.



**Crynodeb o ffotosynthesis**

- (a) Beth yw enw'r adwaith rhwng planhigion, golau, dŵr a charbon deuocsid? [1]

- (b) Ar gyfer beth mae'r planhigyn yn defnyddio golau? [1]

(c) Pa **ddau** (2) beth sy'n cael ei wneud gan y broses hon? [2]

(i) ..... (ii) .....

(ch) Ar gyfer beth gall anifeiliad a phlanhigion ddefnyddio ocsigen? [1]

.....  
.....

(d) Ble, yn y planhigyn, y mae ffotosynthesis yn digwydd? [1]

.....  
.....

(dd) Beth yw enw'r disgiau bach gwyrdd yng nghelloedd y ddeilen? [1]

.....

(e) Pa gemegyn sy'n bresennol yn y disgiau bach gwyrdd yma? [1]

.....


(f) Enwch **dri** (3) pheth, yn ychwanegol i olau, sy'n angenrheidiol er mwyn i ffotosynthesis ddigwydd. [3]

(i) ..... (ii) .....

(iii) .....

**[Cyfanswm: 11]**

2. Pan fydd anifeiliaid yn bwyta planhigion, mae'r egni bwyd o'r planhigyn yn cael ei ddefnyddio gan y bwyttawyr planhigion (y llysysisydion (*herbivores*)). Mae'r egni yma yn cael ei drosglwyddo i'r cigysyddion (*carnivores*) sy'n bwyta'r bwyttawyr planhigion. Astudiwch y we fwyd isod ac atebwch y cwestiynau.



(a) Enwch y goeden sy'n cyflenwi bwyd i'r anifeiliaid. [1]

(b) Sawl anifail sy'n dibynnu ar y Goeden Dderw am fwyd? [1]

(c) Enwch **ddau** (2) lysysisyd o'r we fwyd uchod. [1]

(i) ..... (ii) .....

(ch) Enwch **ddau** (2) gigysydd o'r we fwyd uchod. [1]

(i) ..... (ii) .....


(d) Ysgrifennwch gadwyn fwyd gyda **thri** (3) anifail yn y gadwyn. [1]

Coeden Dderw ..... → ..... → .....


[Cyfanswm: 5]

# **TUDALEN WAG**


3. Dyma rai lluniau o anifeiliaid sydd i'w gweld mewn gwasarn dail (*leaf litter*) (dail marw). Defnyddiwch yr allwedd sydd ar y dudalen gyferbyn i enwi'r anifeiliaid yma. Ysgrifennwch eu henwau o dan **bob** llun. (Nid yw'r anifeiliaid wedi'u lluniadu wrth raddfa.) [5]




A. ....




B. ....



C. ....



CH. ....



D. ....

[Cyfanswm: 5]


## ALLWEDD

- |           |  |  |
|-----------|--|--|
| <b>1.</b> | Mae adenydd ( <i>wings</i> ) gan yr anifail .....                | <b>Gwybedyn mân<br/>(Midge)</b>            |
|           | Nid oes adenydd gan yr anifail .....                             | <b>Ewch i 2</b>                            |
| <b>2.</b> | Mae segmentau gan yr abdomen (y rhan waelod o'r corff) .....     | <b>Ewch i 3</b>                            |
|           | Nid oes segmentau gan yr abdomen (y rhan waelod o'r corff) ..... | <b>Ewch i 4</b>                            |
| <b>3.</b> | Mae pinsiyrnau ( <i>pincers</i> ) ar ben yr abdomen .....        | <b>Pryfyn Clust<br/>(Earwig)</b>           |
|           | Nid oes pinsiyrnau ar ben yr abdomen .....                       | <b>Chwilen grwydr<br/>(Rove Beetle)</b>    |
| <b>4.</b> | Teimlyddion ( <i>antennae</i> ) byr .....                        | <b>Chwilen y llawr<br/>(Ground Beetle)</b> |
|           | Teimlyddion hir .....  | <b>Gwiddonyn<br/>(Weevil)</b>              |

4. Gwnaeth dosbarth o ddisgyblion gasglu anifeiliaid o'r gwasarn dail a chyfrif y mathau gwahanol. Dyma dabl o'u canlyniadau:

Anifeiliaid	Nifer
Chwilog y llawr	10
Cantroediaid ( <i>centipedes</i> )	15
Miltroediaid ( <i>millipedes</i> )	15
Corynnod / Pryfed cop	20
Moch y coed ( <i>woodlouse</i> )	30
Cynffonau sbonc ( <i>springtails</i> )	5
Pryfed genwair / Mwydod	10
Pryfed clust	5

- (a) Gwnewch graff **bar** o'u canlyniadau ar y papur graff. Mae'r un cyntaf wedi cael ei wneud i chi. [9]




- (b) Beth oedd **cyfanswm** yr anifeiliaid a gafodd eu casglu?

[1]

# TUDALEN WAG


5. Roedd y disgylion eisiau darganfod pH y pridd o dan y gwasarn dail. Gwnaethon nhw brofi'r pridd fel hyn:

**Cam 1**




1. Rhowch 1cm o bridd mewn tiwb profi.

**Cam 2**



2. ....  
.....

**Cam 3**



3. Ychwanegwch ddŵr distyll a dangosydd cyffredinol (*universal indicator*).

**Cam 4** - Ysgydiwch (*Shake*) ef a'i adael i setlo.

- (a) Anghofiodd disgylwysgrifennu'r cyfarwyddiadau ar gyfer **Cam 2**.


Ysgrifennwch nhw yn ei le wrth ochr y diagram.

[1]

- (b) Yng **Ngham 3**, pa 2 (ddau) beth ychwanegol gafodd eu hychwanegu i'r tiwb prawf?

(i) ..... (ii) .....

Mae'r dangosydd cyffredinol yn newid ei liw i ddangos gwerthoedd pH y pridd yn ôl y raddfa pH.



- (c) Trodd yr hydoddiannau o'r sampl pridd (*soil sample solutions*) yn oren / melyn.

Beth oedd gwerth pH y pridd?

[1]

- .....  
(ch) Pa liw fyddai pridd niwtral yn ei ddangos?

[1]

- (d) Mae pridd gyda gwerth pH o 3 (tri) yn bridd ..... .


[1]

- (dd) Mae pridd gyda gwerth pH o 9 (naw) yn bridd ..... .

[1]

**[Cyfanswm: 7]**

6. Dyma lun o hedyn ffeuen (*broad bean seed*). Mae ganddo got o'r enw *testa*, craith (*scar*) o'r enw *hadgraith* (*hilum*), a thwll i adael dŵr i mewn, o'r enw *micropyl*. Atebwch y cwestiynau am yr hedyn ffeuen.




(a) Labelwch rannau 1, 2 a 3 ar y diagram. [3]

(b) Rhowch gylch o gwmpas y tymheredd gorau i'r hedyn hwn egino (*germinate*) (tyfu). [1]

- (i)    5°C        (ii)    15°C        (iii)    45°C        (iv)    65°C

(c) Mae'r hedyn yn dechrau egino. Ar y diagram, labelwch y rhannau canlynol: [4]

*deilen;*    *coesyn;*    *gwreiddyn;*    *hedyn.*



(ch) I dyfu'n dda, enwch **dri** (3) amod (*conditions*) y mae eu hangen ar y planhigyn. [3]

(i) .....

(ii) .....

(iii) .....

(d) Cafodd 100 (cant) o hadau eu hau (*sown*), ond dim ond 80 (wyth deg) a eginodd.


Beth oedd % (canran) yr egino (*germination*)? [2]

.....

**[Cyfanswm: 13]**

7. Cynhaliodd dosbarth o ddisgyblion arolwg i ddarganfod y blas mwyaf poblogaidd o iogwrt. Gwnaethon nhw gofnodi eu canlyniadau mewn siart cylch.

Atebwch y cwestiynau am eu canlyniadau.



(a) Pa flas oedd y **mwyaf** poblogaidd? [1]

(b) Pa flas oedd y **lleiaf** poblogaidd? [1]


(c) Atebwch **Cywir** neu **Anghywir**: [3]

- (i) Mae Mafon yn fwy poblogaidd na Mefus. ....
- (ii) Mae Ceirios Du yn fwy poblogaidd na Mefus. ....
- (iii) Mae Mafon a Mefus gyda'i gilydd wedi sgorio mwy nag Eirin Gwlanog a Fanila gyda'i gilydd. ....

**[Cyfanswm: 5]**

8. Mae teulu wedi penderfynu gosod lawnt o flaen eu ty.

Dyma gynllun (nid wrth raddfa).



- (a) Beth yw arwynebedd (*area*) y lawnt?

[2]

- (b) Roedd ar y teulu angen 1 (un) bocs 500g o hadau gwair (*grass seed*) ar gyfer pob 10 metr sgwâr.

Sawl bocs o hadau bydd ei angen arnynt i gyd?

[1]

- (c) Mae pob bocs o hadau yn costio £2.00. Beth fydd cost yr hadau gwair?

[1]

- (ch) Gallai'r teulu ddefnyddio tywarch (*turf*) yn lle hadau gwair ar gyfer y lawnt. Mae rôl o dywarch yn 1 (un) metr sgwâr.

Sawl rôl o dywarch fydd ei angen arnynt?

[1]

- (d) Mae pob rôl o dywarch yn costio £2.00. Beth fydd cost gosod tywarch ar y lawnt?

[1]

- (dd) Pa ddull yw'r un mwyaf rhad ar gyfer yr ardd deuluol, hadau gwair neu dywarch?

[1]

**[Cyfanswm: 7]**

**Trosodd.**

9. Edrychwrh ar y geiriau yn **Rhestr A** a chwiliwrh am yr ystyr yn **Rhestr B**.  
Cysylltwch **bob** gair â'i ystyr gan ddefnyddio llinell syth.

[5]

<b>Rhestr A</b>	<b>Rhestr B</b>
Bacteria	pryfed sy'n bla ( <i>pest</i> ) ar blanhigion.
Pryfed gwyrdd ( <i>greenfly</i> )	anifail sy'n bwyta planhigion ac anifeiliaid eraill.
Hollysydd ( <i>omnivore</i> )	organebau bach iawn sy'n gallu dadelfennu ( <i>break down</i> ) defnydd marw.
Cynhyrchydd ( <i>producer</i> )	defnydd pwdr ( <i>decayed</i> ) yn y pridd.
Hwmws	planhigyn gwyrdd sy'n gwneud bwyd.

[Cyfanswm: 5]

10. Defnyddiwch y geiriau canlynol i lenwi'r bylchau fel bod y paragraff isod yn gwneud synnwyr. [8]

cnydau (*crops*)      coed (*trees*)      ocsigen      dail

bwyd      glaw      y Ddaear      bwyta

Mae planhigion gwyrdd yn bwysig i'r holl fywyd ar ..... Yn ystod ffotosynthesis mae planhigion yn gwneud ..... i anifeiliaid ei ..... a hefyd maen nhw'n cynhyrchu ..... ar gyfer resbiradaeth. Mae planhigion hefyd yn colli dŵr o'u ..... . Mae planhigion mawr fel ..... yn colli llawer o ddŵr. Mae hyn yn ffurfio cymylau sy'n gallu dod â ..... i leoedd sydd filltiroedd i ffwrdd fel bod pobl yn gallu tyfu .....

[Cyfanswm: 8]

11. Ydy'r cwestiynau canlynol yn **gywir** neu'n **anghywir**? Ysgrifennwch **cywir** neu **anghywir** wrth ochr **pob** datganiad.

- (a) Mae pridd clai yn cynnwys gronynnau (*particles*) mawr. ..... [1]
- (b) Mae pryfed genwair/mwydod yn niweidiol i blanhigion. ..... [1]
- (c) Anifeiliaid sy'n bwyta anifeiliaid eraill yw cigysyddion. ..... [1]
- (ch) Mae buchod coch cwtia (*ladybirds*) yn bwyta pryfed gwyrdd. ..... [1]

[Cyfanswm: 4]